

Drafft o hyn a drafodwyd yn y Cyngor Cymuned Llanbedr 2.3.23

Bydd Cofnodion llawn yn cael eu rhoi ymlaen ar y wefan unwaith byddent wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Ebrill.

Mae croeso I rai ymuno wrth gwrs drwy gyfrwng zoom, drwy gysylltu gyda'r Cadeirydd.

**Balans Banc** diwedd Chwefror yw £21280.19

Datgan diddordeb – AH materion cynllunio

**Cais cynllunio** a drafodwyd – Cais Rhif NP5/62/6D – ffenestri ac yn y blaen Ty Mawr

Sylwadau y Cyngor – dim gwrthwynebiad I hyn.

Fel hyn ydi safbwynt Cyngor ar y **ffordd arfaethedig** – Bod y Cyngor yn dal I gefnogi ffordd newydd, ond hefyd yn edrych ar opsiynau eraill a all liniaru'r traffic yn Llanbedr. Disgwyl cael pwyllgor gyda Cyngor Gwynedd parthed hyn, ac hefyd i gael mwy o fanylion parthed y ddeddf 20 mya.

Rhaid cydweithio er lles Llanbedr ac Ardudwy gyfan.

#### **Eitemau eraill**

Wal y fynwent – wedi cael pris I wneud y Gwaith yma.

Never Cut – wedi derbyn pris I wneud y Gwaith yma. Ond rhaid cysylltu gyda adran cynllunio Parc Cenedlaethol parthed hyn.

Tim tacluso – yn ymweld a Llanbedr mis yma.

Wedi adrodd am gwyn – mwd ar ffordd Mochras.

Capel Salem – nid yw'r Cyngor am gymerud gofal o'r fynwent.

Sgwennu ar holiadur lein y Cambrian – bin baw cwn ger y safle o bosib, fel bydd modd cael bin sbwriel ar yr orsaf. Bod yr arwydd aros am drenau – yn rhy uchel.

Gwelliannau Cae Deiliog – cwmni yn mynd I roi awgrymiadau ar ba goed l'w plannu yno. Angen gwwirfoddolwyr.

Huchenfeld – bydd cynrychiolwyr o Huchenfeld yn ymweld a Llanbedr yn mis Ebrill.

HAL – son am gyfarfod cyhoeddus tua mis medi – ar gyfer gweld y ffordd ymlaen I fynd I gontract 5 mlynedd eto.